

Cofnodion cyfarfod Mai 6ed 2021

Presennol: Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts Carol Rowlands, John Caradog Williams (*ffôn*)

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd pawb gan y Maer, O Rhys Evans.** Diolchodd yn gynnes i Eifion Roberts, y cyn-Faer am ei arweiniad doeth i'r Cyngor yn ystod y ddwy flynedd anodd a aeth heibio. Diolchodd hefyd i'r Cynghorwyr am ddangos ffydd ynddo a'i ethol yn Faer.

Derbyniwyd ymddiheuriadau Ivora Jones a Carol Rowlands.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 1af, 2021.

4. **Materion y Clerc:**

- i. Sedd wag ar y Cyngor: gan nad oedd enwau ymgeiswyr wedi dod i law o fewn y cyfnod penodedig, cytunwyd i wahodd Heledd Roberts.
- ii. Trwydded Pafin: Derbyniwyd neges gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd nad ydyw'n bosib darparu copi o'r drwydded gan na ddarparwyd trwydded o gwbl. Ymhellach mae NMWTRA yn gwrthwynebu pob cais o'r fath o dref y Bala. Ar 15/4/2022 bu swyddog o Gyngor Gwynedd yn tynnu lluniau o'r ardal wrth Stori ac yn eu hanfon ymlaen at NMWTRA.
Cais **Y Badell Aur** i roi byrddau a chadeiriau ar y briffordd (eglwurwyd wedyn mai'r pafin sydd dan sylw, nid y briffordd): Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i fynegi gwrthwynebiad y Cyngor i roi byrddau a chadeiriau ar y briffordd na'r palmant oherwydd nad oes digon o le yno, ni fyddai'n bosib i gadair olwyn basio, ac ni fyddai'n bosib cadw pellter cymdeithasol.
- iii. Cyfleusterau'r Grin: bu raid cysylltu sawl gwaith gyda Chyngor Gwynedd oherwydd problemau technegol.
- iv. Diolchwyd am yr ymateb a dderbyniodd Cyngor Cymuned Llanycil am waharddiad cyflymder.
- v. Di-ffib - trafodwyd trefniadau agor a diolchwyd i'r Seiri Rhyddion am eu cyfraniad gwerthfawr.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Ateggodd y croeso i'r Maer newydd a chyfeiriodd yn benodol at falchder cyn-Maer Cyngor Tref Y Bala ,sef Dilwyn Jones, fod Rhys Evans wedi cymryd swydd a ddaeth i'w ran ef yn y gorfennol.

Mae'r goeden newydd ar y ffordd i'w gosod tu allan y Post. Roedd yn ymfalchïo yn ymateb unionsyth y timau gofal pan dorrodd Covid 19 allan yn y Ffatri Gacennau. Tynnir sylw'r Heddlu fod pryder wedi codi am ymddygiad ar y Stryd Fawr yn hwyr yn y nos.

6. Cyfoeth Naturiol Cymru:

- i. Derbyniwyd adroddiad Tony Parry fod materion yn parhau efo adran cynllunio'r Parc Cenedlaethol Eryri a disgwylir adroddiad ar 13/5/21. Mae Jones Brothers yn prisio'r gwaith ar hyn o bryd. Gwahoddir cynrychiolydd i gyfarfod Mehefin.
- ii. Nodwyd derbyn yr Ymgynghoriad ar fasn yr afon Ddyfrdwy.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd gwybodaeth gan Blachere Illuminations; bydd is-bwyllgor y Nadolig yn cyfarfod cyn cyfarfod Mehefin o'r Cyngor.

8. Materion Cynllunio: Cymeradwywyd

- i. **NP5/53/582A** Codi estyniad un-llawr ar yr ochr 22 Mawnog Fach, Bala
- ii. **NP5/53/LB212** Islyn Heol Arennig

9. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Derbyniwyd taliad cyntaf y Praesept sef £13,500. Cymeradwywyd Cysoni'r Banc 2020-21 a thudalen 2 o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau:
 - 1) Cyngor Gwynedd: Rhent Y Domen £1
 - 2) Yswiriant (Zurich £315.03)
 - 3) Hill & Roberts £144 (yn cynnwys TAW)
 - 4) Cyflog (mis Ebrill)
 - 5) Ffeiliau'r Cofnodion (rhannu gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn) £17.00
 - 6) Cronfa'r Maer: cytunwyd i sicrhau fod £800 yng nghyfrif Cronfa'r Maer.
- iii. Ceisiadau am arian (blwyddyn ariannol 2020-21): Cytunwyd i gyfrannu
 - i. £75 i Llên y Llannau
 - ii. £150 i'r Clwb Badminton.
- iv. Rhannwyd Cytundeb Glanhau llochesi bws o fis Mai 2021 hyd Mai 2023

10. Gohebiaeth: Ystyriwyd

- i. Cyngor Gwynedd: Cais am enw i'r datblygiad ym mhen draw Cysgod y Coleg – cytunwyd ar yr enw Dôl Tryweryn.
- ii. Un Llais Cymru: Gweminar *Eich Tref Eich Dyfodol* 20/5/21 o 10.30am tan 12.00 Zoom
- iii. Un Llais Cymru: Hyfforddiant sydd ar gael

- iv.* Parc Cenedlaethol Eryri: Gweminar ar reoli ymwelwyr 20/5/21 7.00 – 8.00pm
- v.* Cyngor Gwynedd: gorchymyn dim parcio mewn ardal anabl ym Mro Eryl yn cael ei ddiddymu.
- vi.* Llythyr o ddiolch am gyfraniad gan Ffederasiwn CFFI Meirionnydd
- vii.* Codi pac – cais i ffilmio ar Y Domen

- 11. Partneriaeth Penllyn:** bydd Cyfarfod Blynyddol cyn hir; bwriedir agor yn fuan
- 12. Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd neges Carol Rowlands bod eu cyflwr yn foddhaol.
- 13. Materion lleol** y Cyngorwyr Tref: soniwyd am camper vans yn parcio mewn mannau yn y dref yn flaenorol.
- 14. Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 3/6/21 (trwy gyfrwng Zoom)